

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cynnwys

04 Cyflwyniad gan y Llywydd

05 Crynodeb

06 Y prif weithgareddau a'r cynnydd yn 2009

11 Dull sy'n cynnwys sawl maes cydraddoldeb

12 Ein gweithlu

17 Ymgysylltu a chyfranogi

22 Rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad

25 Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

27 Y blaenoriaethau ar gyfer 2010

30 Atodiad A: Y cynnydd a wnaed ar amcanion Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb

45 Atodiad B: Ystadegau'r gweithlu ac ystadegau recriwtio yn ôl pob maes cydraddoldeb

48 Atodiad C: Arolwg Cyflog Cyfartal 2009 – y prif ganlyniadau

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes angen copi o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad:

Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: **Equalities.Team@wales.gsi.gov.uk**
Ffôn: 029 2089 8650
Ffôn testun: 029 2089 8601

# Cyflwyniad gan y Llywydd

Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf ar ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu, a gyhoeddwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb ynglŷn â'r amrywiaeth eang o waith cydraddoldeb y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i ymateb i'r blaenoriaethau penodol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

Eleni, rydym hefyd wedi dathlu dengmlwyddiant datganoli. Er mwyn pwysleisio ein hymrwymiad i ddinasyddiaeth gydradd yn y Gymru ddatganoledig, cynheliais gyfarfodydd â grwpiau ledled Cymru nad oeddynt yn ymddangos i ni fel bod ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn perthynas â gwaith y Cynulliad. Ni all Cynulliad fod yn wirioneddol 'Genedlaethol' os nad yw'n gwir gynrychioli'r rhai sy'n wynebu problemau cydraddoldeb a mynediad yn eu bywydau beunyddiol. Rydym yn gobeithio bod y trafodaethau a gawsom wedi ein cynorthwyo ni oll i ymrwymo i sicrhau mynediad gwell ac i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Er ein bod yn defnyddio'r adroddiad hwn i ddathlu'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd yn cydnabod na ellir byth gwblhau'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb a democratiaeth. Mae'n ymwneud ag ansawdd y berthynas rhwng unigolion a sefydliadau mewn bywyd cyhoeddus. Dyna pam y mae'n rhaid i ni barhau i geisio bod yn sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, sy'n esiampl i eraill, ac sydd â pholisïau, arferion a diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, urddas a pharch mewn modd cadarnhaol. Wedi'r cyfan, dyna sy'n cadw democratiaeth yn fyw.

**Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad**
**Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC**

# 01_Crynodeb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Un o'n hegwyddorion sylfaenol yw hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Diben ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu yw cefnogi Cynulliad Cymru wrth hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a nodi a chael gwared ar rwystrau posibl i gydraddoldeb ar gyfer ein staff, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd a wasanaethwn.

Rydym yn parhau i geisio bod yn enghraifft o gyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol, sy'n cefnogi anghenion amrywiol ein gweithlu i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Rydym yn cefnogi busnes y Cynulliad a gwaith Aelodau'r Cynulliad, drwy ddarparu adnoddau hygyrch, cyngor a gwybodaeth.

Gan mai Cynulliad Cymru yw cartref democratiaeth yng Nghymru, rydym yn darparu adeiladau, gwybodaeth a thrafodion sy'n hygyrch i holl aelodau'r cyhoedd.

**Yr hyn y mae'r adroddiad yn ei gynnwys:**
- gwybodaeth ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran y gwaith ar gydraddoldeb sy'n cael ei gyflawni yn y sefydliad;
- amlinelliad o'n blaenoriaethau ar gyfer datblygu ein gwaith ar gydraddoldeb yn 2010.

**Cofnodi'r cynnydd**
Mae Atodiad A yn rhoi adroddiad cynnydd ar yr amcanion a nodwyd ar gyfer pob Maes Gwasanaeth fel y nodir hwy yng Nghynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu 2008-2011. Mae Pennod 2 yn nodi rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.

**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle i Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad gymryd tystiolaeth gan gynrychiolydd o Gomisiwn y Cynulliad a swyddogion ynglŷn â'r gwaith rydym yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch ym mhob agwedd ar fusnes y Cynulliad.

# 02_Y prif weithgareddau a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2009

**Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2009**
Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol wybodaeth i'w chynnwys ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, sy'n nodi'r cyflogwyr mwyaf hoyw-gyfeillgar yn y DU. I gydnabod y gwaith caled a wnaed gan ein timau drwy'r holl sefydliad, cawsom ein gwobrwyo drwy fod yn rhif 73 yn y mynegai, a chawsom wobr am gael ein henwi fel y cyflogwr sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru. Mae ein tystysgrif a'n gwobr yn cael eu harddangos ar y ddesg yn y dderbynfa yn Nhŷ Hywel.

**Cynhadledd y Llefarydd**
Ar 8 Mehefin 2009, cynhaliodd y Cynulliad gyfarfod o Gynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn y Senedd. Nod y Gynhadledd oedd ystyried, a gwneud argymhellion i newid, yr anghyfartaledd rhwng nifer yr Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin sy'n fenywod, sy'n dod o leiafrifoedd ethnig neu sy'n anabl a nifer y bobl o'r grwpiau hynny sy'n byw yn y DU. Clywodd y Gynhadledd dystiolaeth gan gynrychiolwyr o sefydliadau'r sector gwirfoddol; Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy; ac Aelodau Cynulliad eraill. Canolbwyntiodd y sesiwn ar y rhwystrau y mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu wrth geisio ymgysylltu â'r broses wleidyddol. Mae adroddiad interim ar gael yn awr ar wefan Cynhadledd y Llefarydd.

**Grŵp Llywio Cydraddoldeb**
Mae'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, sy'n cael ei gadeirio gan Claire Clancy yn cynghori'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad ac yn gweithredu fel fforwm ar gyfer trafod pob agwedd ar gyfleoedd cyfartal yn y Cynulliad. Mae arweinwyr cydraddoldeb pob maes gwasanaeth yn aelodau o'r grŵp.

## Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru

Yn dilyn cynllun cysgodi Aelodau'r Cynulliad, o dan arweinyddiaeth Ymgyrch y Bleidlais Ddu, yn 2007-08, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awr yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu a gweithredu Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd mentora i 34 o unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel y gallant ymgysylltu'n fwy â democratiaeth yng Nghymru a chynyddu eu hyder wrth ymdrin â chynrychiolwyr etholedig. Rhwng mis Hydref 2009 a mis Ebrill 2010, bydd y cyfranogwyr o bob rhan o Gymru'n cael eu mentora naill ai gan gynghorydd lleol neu gan Aelod Cynulliad. Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar gynyddu ymgysylltiad y cyfranogwyr â chyrff democrataidd a datblygu eu rôl fel dinasyddion gweithgar a llysgenhadon cymunedol. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi cyfle i'r Mentoriaid ddysgu am gymunedau lleiafrifol ledled Cymru a'r rhwystrau a'r materion a wynebant. Bu Grŵp Llywio yn cynorthwyo'r broses o lunio a gweithredu'r Cynllun, ac roedd yn cynnwys y sefydliadau a ganlyn: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Ymgyrch y Bleidlais Ddu, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, Anabledd Cymru, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, y Ddraig Ffynci ac Age Concern Cymru.

**Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl**
Ar 3 Rhagfyr 2008, dathlodd y Cynulliad Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl drwy gynnal diwrnod o ddadleuon, gweithdai, perfformiadau a chyflwyniadau. Mynychodd dros 200 o'r cyhoedd y digwyddiad, a oedd yn nodi pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Pobl Anabl. Roedd Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau perthnasol, yn rhan o'r broses o drefnu a chynnal y digwyddiad.

Ar 3 Rhagfyr 2009, gwnaethom gynnal ein hail ddigwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, a oedd yn canolbwyntio ar nodi'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth geisio ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. Cynhaliwyd gweithdai yn y prynhawn i archwilio'r rhwystrau sy'n bodoli i bobl anabl a thrafodaethau ynglŷn â'r materion sy'n berthnasol i bobl anabl yng Nghymru. Roedd un o'r sesiynau'n canolbwyntio ar droseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ganlyniadau'r trafodaethau a gynhaliwyd ar y diwrnod.

**Y gyfnewidfa cydraddoldeb rhyngseneddol**
Mae tîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad wedi cyfarfod â chydweithwyr o gyrff deddfwriaethol eraill y DU i gynnal trafodaeth agored ac i rannu arferion gorau. Rhoddodd y gyfnewidfa gyfle iddynt archwilio nifer o bynciau, gan gynnwys heriau a buddiannau asesiadau effaith cydraddoldeb a chynlluniau cydraddoldeb cynhwysol.
Mae'r digwyddiad wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng timau cydraddoldeb pedair senedd y DU.

**Mis Hanes Pobl Dduon**
Ym mis Hydref 2009, roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn un o noddwyr digwyddiad i ddangos ffilm i ddathlu mis hanes pobl dduon. Gallai staff y Cynulliad a chyfranogwyr cynllun mentora Camu Ymlaen Cymru fynychu'r digwyddiad.



Digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2008 yn y Senedd

"Darparwyd gwasanaethau cymorth gwych ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl. Roedd cymorth ardderchog ar gael drwy'r dydd a gwnaethoch sicrhau bod ein holl anghenion yn cael eu diwallu."

"Roedd yn ddigwyddiad da ar gyfer pobl anabl – roedd yn ddathliad."

"Roedd amrywiaeth da o weithgareddau, dadleuon, cyflwyniadau, gweithdai a pherfformiadau – roedd y diwrnod yn diwallu anghenion pawb."

"Yn sicr, cododd y diwrnod broffil materion anabledd."

"Roedd y trefniadau o'r radd flaenaf; roedd y croeso a'r ymdrech a wnaed i'n gwneud yn gyfforddus o'r radd flaenaf."

"Roedd yn ddigwyddiad gwych ac roedd yn fraint cymryd rhan."

**Sylwadau gan unigolion a fynychodd ddigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl 2008.**

**Presenoldeb yn y Mardi Gras**
Am y tro cyntaf, roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bresenoldeb ym Mardi Gras Caerdydd-Cymru. Roedd aelodau o Dîm Digwyddiadau a thîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad, ac aelodau o'n Rhwydwaith Staff LGBT yno i groesawu ymwelwyr i'n Bws Allgymorth, i'w hysbysu ynglŷn â rôl a gwaith y Cynulliad ac i egluro pa gymorth sydd ar gael i gyflogeion lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol yn y Cynulliad.

thrawsrywiol ar fws allgymorth y Cynulliad ym Mardi Gras Caerdydd-Cymru 2009

## 03_Dull sy'n cynnwys sawl maes cydraddoldeb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Mesur Cydraddoldeb sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd. Mae'n dod â phob maes cydraddoldeb a gydnabyddir ynghyd mewn un dogfen drawsbynciol. Y meysydd cydraddoldeb a gydnabyddir yn ein Cynllun a Chynllun Gweithredu yw: oedran, anabledd, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd / credo a chyfeiriadedd rhywiol.

Yn hytrach na chael dull unigol ar gyfer pob maes cydraddoldeb, rydym wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol i sicrhau cydraddoldeb i bawb. Er ein bod yn cydnabod ac yn dathlu'r amrywiaeth ymysg ein gweithlu a'n hymwelwyr, rydym yn cydnabod na all pobl uniaethu â phriodoledd unigol a warchodir yn unig, ac mai unigolion gyda gofynion unigol yw pob un ohonom. Cyn belled â bod hynny'n bosibl ac yn rhesymol, atebir gofynion unigol er mwyn galluogi'r holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cynulliad.

# 04_Ein gweithlu

Ein gweithlu yw'r ased bwysicaf sydd gennym, ac rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ein holl staff yn gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu. Rydym yn cefnogi'r gweithlu cyfan, gan ddatblygu diwylliant sy'n hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a pharch.

**Y polisi urddas yn y gweithle**
Er mwyn helpu i greu diwylliant o barch, mae gennym bolisi urddas yn y gweithle ar gyfer staff. Mae'r polisi'n disgrifio'r camau a gymerir wrth ymchwilio i honiadau o fwlio neu aflonyddu. Mae'r polisi'n berthnasol ar draws y meysydd cydraddoldeb, ac mae'n cynnwys pob priodoledd a warchodir. Mae hefyd yn disgrifio'r hyn a ystyrir yn ymddygiad annerbyniol.

Ail-luniwyd y polisi'n ddiweddar, gan ystyried sylwadau gan yr undebau llafur a'n rhwydweithiau staff. Bydd y polisi newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2010.

**Proffil y gweithlu**
Ar hyn o bryd, ni allwn roi gwybodaeth ystadegol ar bob agwedd ar gyfansoddiad ein gweithlu oherwydd ni chasglwyd yr holl wybodaeth a fydd yn cael ei chadw yn ein system newydd hyd yn hyn ac ni roddwyd y wybodaeth yn y system. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, rydym wrthi'n gofyn i staff roi'r wybodaeth berthnasol i ni. Unwaith y cwblheir yr ymarferiad hwn, bydd gennym ddarlun gwell o amrywiaeth ein gweithlu.

Cynhaliwyd ymarfer monitro cydraddoldeb dienw ymysg staff yn 2008, ond nid ydym yn bwriadu cynnal un arall tan 2011, pan fydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru.

Yr unig ddata y gallwn eu darparu ar hyn o bryd yw'r data ar hil, rhywedd ac oedran (gweler y tablau yn Atodiad B).

**Ystadegau recriwtio**
Mae'r wybodaeth am amrywiaeth yr unigolion sy'n gwneud ceisiadau am swyddi ar gael yn Atodiad B.

Staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Trefniadau gweithio hyblyg**
Gweithredir busnes y Cynulliad ar sail yr egwyddor o oriau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd: ceisir osgoi cynnal busnes cyn 09.00 neu ar ôl 18.00, lle bo hynny'n bosibl.

Mae nifer o opsiynau gweithio hyblyg ar gael i alluogi staff i gadw cydbwysedd rhwng eu hymrwymiadau yn y gwaith a gartref. Er bod anghenion staff yn cael eu cydbwyso yn erbyn anghenion busnes, mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys gweithio gartref, gweithio llai o oriau, gweithio oriau cywasgedig, gweithio'n rhan-amser, gweithio amser fflecsi a gweithio yn ystod y tymor.

"Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i weithio'n hyblyg yn fawr. Rwy'n byw gryn bellter o Gaerdydd ac rwyf wedi cywasgu fy oriau i fy ngalluogi i weithio yng Nghaerdydd am bedwar diwrnod yr wythnos. Hefyd, oherwydd y pellter, gallaf weithio o gartref o bryd i'w gilydd."

"Rwyf yn rhiant sengl sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac rwyf yn teimlo'n ffodus iawn fy mod yn gallu gweithio llai o oriau. Mae hyn yn fy ngalluogi i gael cydbwysedd iach rhwng y gwaith a bywyd."

**Sylwadau gan aelodau o staff sydd wedi manteisio ar ein patrymau gwaith hyblyg**

**Rhwydweithiau staff**
Mae gan y Cynulliad ddwy rwydwaith gymorth y gall staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ymuno â hwy. Mae ein Fforwm ar gyfer Staff Anabl a'n Rhwydwaith Staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) yn hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel, cynhwysol ac amrywiol ac maent yn cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar staff anabl a staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae'r ddau grŵp yn cael eu cynnal gan aelodau o staff ar gyfer staff ac mae ganddynt eu cyllidebau eu hunain. Yn ystod 2009, mae ein rhwydweithiau staff wedi cyflwyno sylwadau ar gyfer datblygu ein polisïau Urddas yn y Gwaith, Disgyblaeth a Chwyno.

**Hysbysebu recriwtio**
Mae ein timau Recriwtio a Chydraddoldeb a Mynediad yn gweithio'n agos i sicrhau bod ein holl lenyddiaeth recriwtio yn hygyrch, bod yr iaith a ddefnyddir yn addas a bod dull o roi arferion da ar waith o ran cydraddoldeb yn cael ei integreiddio yn ein gweithdrefnau a'n harferion recriwtio. Mae ein tîm Recriwtio wrthi ar hyn o bryd yn datblygu polisi a strategaeth allgymorth recriwtio newydd i geisio cyrraedd ystod amrywiol o gyflogeion posibl.

**Hyrwyddo'r Cynulliad fel cyflogwr ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**
Rydym wedi hysbysebu'r Cynulliad Cenedlaethol fel cyflogwr posibl ymysg amryw o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae ein henw yn ymddangos yng nghanllawiau Stonewall, "Starting Out: Lesbian, Gay and Bisexual Recruitment Guide", sef llawlyfr sydd ar gael i fyfyrwyr ac unigolion sy'n chwilio am swydd sydd eisiau canfod cyflogwr sy'n cefnogi staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Rydym wedi hyrwyddo'r Cynulliad hefyd fel cyflogwr posibl ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy'r UK Urban Wall Planner (siart sydd ar gael mewn swyddfeydd a chanolfannau cymunedol ledled Cymru), drwy sefydliadau fel Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, ac Equality Britain, ac mewn digwyddiadau a ffeiriau gyrfaoedd amrywiol.

**Hyfforddiant cydraddoldeb**
Mae ein holl staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb. Diben yr hyfforddiant yw:
- datblygu dealltwriaeth well o faterion cydraddoldeb a mynediad;
- pwysleisio materion, sy'n ymwneud ag agweddau pobl a materion corfforol, sy'n gallu creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio ein gwasanaethau;
- archwilio dulliau o oroesi neu gael gwared ar y rhwystrau hynny;
- darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n hymwelwyr.

Mae'r hyfforddiant yn rhoi cyngor ymarferol am faterion sy'n ymwneud â diwylliant, oedran, anabledd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, ac yn canolbwyntio ar urddas, parch a hawliau dynol. Mae'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys cyngor ynglŷn â darparu gwasanaeth hygyrch i'n holl ymwelwyr, gan gynnwys pobl sydd â nam ar eu synhwyrau, nam corfforol neu gyflwr iechyd meddyliol, a sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu hateb.

**Cwrs ymwybyddiaeth ynghylch pobl fyddar a phobl fyddar a dall**
Ers sefydlu contract gyda darparwr hyfforddiant, mae nifer o'n haelodau staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch pobl fyddar a phobl fyddar a dall. Roedd y cwrs yn agored i bob aelod o staff ond roedd wedi'i anelu'n benodol at y staff hynny sydd mewn swyddi lle maent yn cyfathrebu â'r cyhoedd, i'w galluogi i fod yn hyderus wrth groesawu ymwelwyr sydd ag anghenion gwahanol i ystâd y Cynulliad. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal eto yn 2010 a bydd rhai aelodau o staff yn symud ymlaen i ddysgu laith Arwyddion Prydain.

"Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i fy swydd ar hyn o bryd, mae'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol o'r materion a chael y sgiliau perthnasol oherwydd mae cyfleoedd diddiwedd yn fy swydd bresennol ac, ar lefel bersonol, bydd yn ddefnyddiol pan fyddaf yn cyfathrebu â rhywun o'r gymuned fyddar... Erbyn diwedd y cwrs, roeddwn yn teimlo'n hyderus ynghylch siarad ag unrhyw berson byddar a'u helpu cymaint ag y gallaf."

**Sylwadau gan un o gyfranogwyr y cwrs ymwybyddiaeth ynghylch pobl fyddar a phobl fyddar a dall**

**Mentrau i godi ymwybyddiaeth**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad wedi cynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth i hysbysu staff am faterion a digwyddiadau cydraddoldeb amrywiol. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r rhain yn ein cylchgrawn staff, ar y fewnrwyd, ac mewn posteri a phamffledi gwybodaeth. Mae'r pynciau a hyrwyddwyd eleni yn cynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwali, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, cofnodi troseddau casineb, Mela amlddiwylliannol Caerdydd a Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn.

"Cymerodd 3 blynedd i mi ddod 'allan' yn fy swydd flaenorol; cymerodd lai na 3 wythnos i mi deimlo'n ddigon cyfforddus i wneud yr un peth yn y Cynulliad. Roedd yn glir o'r dechrau bod pawb yn derbyn pawb arall fel y maen nhw. Roedd yn bosibl i bobl fy ngweld fel y boi newydd, yn hytrach na'r boi hoyw."

**Ysgrifennwyd gan aelod staff hoyw ar gyfer canllawiau recriwtio Stonewall, 'Starting Out'.**

# 05_Ymgysylltu a chyfranogi

**Y fforwm ar gyfer defnyddwyr anabl**
Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu grŵp allanol o bobl anabl i helpu i asesu polisïau a gweithdrefnau sefydliadau ac i fod yn rhan o'r grŵp llywio oedd yn trefnu ein digwyddiad i nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl yn 2009. Mae'r grŵp yn cynnwys pobl sydd ag amrywiaeth o anableddau sy'n gallu rhoi safbwynt unigol ar ein polisïau a'n gwasanaethau, yn hytrach na safbwynt sefydliad.

Rhoddodd y grŵp gyngor ac arweiniad ar Brosiect y Pierhead, gan roi cyngor gwerthfawr ynglŷn â mynediad, a gafodd ei gynnwys yng nghynllun y prosiect. Bydd cyfleoedd pellach i'r grŵp asesu mynediad i'r Pierhead a chynghori'r Cynulliad ynghylch materion gweithredol.

**Digwyddiadau yn y Senedd**
Mae'r Senedd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau dros y flwyddyn galendr ddiwethaf oedd yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau i nodi achlysuron, digwyddiadau i lansio adroddiadau, cyflwyniadau a pherfformiadau, gan gynnwys y digwyddiadau i nodi Mis Hanes Pobl Dduon; y Gemau Olympaidd Arbennig; Wythnos Celf Ffoaduriaid; Rhwydwaith Cymorth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Rhondda Cynon Taf; hyfforddiant ymwybyddiaeth ynghylch anabledd Equip Cymru; y Sefydliad Iechyd Meddwl; Pobl Ifanc a Gweithgareddau Cadarnhaol yng Nghymru; Prosiect Iechyd Meddwl i Bobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol; Masnach Deg; Arddangosfa Gelf Plant y Cymoedd; yr NSPCC; Diwrnod y Gymanwlad; Arddangosfa "Atgofion Eidalwyr yng Nghymru"; Canolfan Ragoriaeth i Bobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol; Cymorth i Ferched Cymru; Rhoi Pobl yn Gyntaf Caerdydd; a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Corws Gwŷr Hoyw De Cymru yn perfformio'n y Senedd

**Digwyddiadau i nodi dengmlwyddiant datganoli**
I nodi dengmlwyddiant datganoli, gwnaeth y Cynulliad fynychu a chynnal nifer o ddigwyddiadau i adfywio'r diddordeb, y ddealltwriaeth a'r ymgysylltiad hygyrch rhwng y Cynulliad a phobl Cymru.

**Digwyddiadau'r haf**
Cynrychiolwyd y Cynulliad mewn cyfres o ddigwyddiadau dros yr haf mewn amrywiaeth o leoliadau hygyrch ledled Cymru. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, y Sioe Frenhinol Cymru, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Mae croesdoriad mawr o gymdeithas Cymru wedi ymgysylltu â'r Cynulliad yn y digwyddiadau hyn drwy weithgareddau rhyngweithiol, ar-lein ac amrywiaeth o holiaduron. Gofynnwyd i blant a phobl ifanc lenwi papur balot yn amlinellu pa faterion roeddent hwy'n credu y dylai Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad eu harchwilio yn y dyfodol. Cawsom bron i 3,000 o bleidleisiau yn cyfeirio at faterion megis yr amgylchedd, cael lleoedd diogel i chwarae ynddynt a throseddau â chyllyll.

**Digwyddiad dengmlwyddiant**
I ddathlu deng mlynedd ers cynnal Cyfarfod Llawn cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynigwyd y cyfle i blant o bob rhan o Gymru a anwyd ar 12 Mai 1999 ddathlu eu pen-blwyddi mewn steil yn y Senedd. Ymunodd plant o Gaerfyrddin, Neyland, Wrecsam, Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Thywyn ag Aelodau'r Cynulliad a chyn Aelodau'r Cynulliad i nodi'r diwrnod arbennig hwn.

Y Llywydd yn cyfarfod pobl ifanc ar 12 Mai 2009

## Y tîm Allgymorth

Mae gan y Cynulliad dîm Allgymorth sydd â'r rôl o godi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad, meithrin perthynas barhaus â phobl Cymru a lleihau'r rhwystrau gwirioneddol ac ymddangosiadol sy'n atal pobl rhag cyfranogi. Yn ystod 2009, mae'r tîm wedi cyfarfod â grwpiau amrywiol ledled Cymru, gan gynnwys Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched, Rhoi Pobl yn Gyntaf, Race Equality First, Stonewall ac Anabledd Dysgu Cymru. Mae'r tîm Allgymorth yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad i nodi cyfleoedd i gyrraedd grwpiau nad oes ymgysylltiad digonol â hwy.

## Y bws allgymorth

I gefnogi gwaith y tîm Allgymorth, mae'r Cynulliad wedi prynu bws a ddefnyddir mewn digwyddiadau megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru a Mardi Gras Caerdydd-Cymru. Pan nad yw mewn digwyddiadau cenedlaethol, fe'i defnyddir gan ein Swyddog Allgymorth yng ngogledd Cymru i ymweld â chymunedau ledled y rhanbarth. Mae'r bws hygyrch hwn yn cynnwys yr holl adnoddau sydd eu hangen i alluogi'r cyhoedd i ymgysylltu â'r Cynulliad.

Diben y bws amlgyfrwng yw ehangu cyfranogiad y cyhoedd. Ar y bws, gall ymwelwyr ganfod mwy am sut y mae'r Cynulliad yn gweithio, gadael negeseuon fideo i Aelodau'r Cynulliad, dysgu sut i ddechrau deiseb ac hyd yn oed rhoi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad.

**Taith ymgysylltu'r Llywydd**
Fel rhan o'r digwyddiadau dengmlwyddiant, ymwelodd y Llywydd â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau nad oes ymgysylltiad digonol â hwy ledled Cymru i hyrwyddo gwaith y Cynulliad ac i ganfod pa rwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ryngweithio â'r Cynulliad a sefydliadau democrataidd Cymru. Gyda chefnogaeth ein timau Allgymorth a Chydraddoldeb a Mynediad, bu'n cyfarfod â grwpiau lleiafrifol ethnig yn Abertawe, grwpiau o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn Llandudno, plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin, pobl anabl yng Nghwm Rhondda a Bro Morgannwg, a grwpiau ffydd yng Nghasnewydd.

Ymddangosodd tair prif thema yn ystod y daith:
—yn gyntaf, roedd pobl yn teimlo bod gwleidyddion yn rhoi blaenoriaeth i'r boblogaeth gyffredinol, heb gymryd sylw o'r materion sy'n benodol i grwpiau lleiafrifol;
—yn ail, nid oedd nifer fawr o bobl yn gwybod sut i gysylltu â'u Haelod Cynulliad, na sut i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud;
—yn olaf, mae diffyg modelau rôl gweladwy yn atal pobl o grwpiau lleiafrifol rhag ymgysylltu â sefydliadau gwleidyddol.

Mae'r atborth hwn wedi rhoi rhywbeth i ni gnoi cil arno a byddwn yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r daith, mae'r Llywydd wedi siarad mewn nifer o ddigwyddiadau i gynulleidfaoedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd, yr RNIB, Hafal a Stonewall mewn digwyddiad ynghylch mynd i'r afael â homoffobia.

Y Llywydd yn cyfarfod pobl yn y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn Abertawe

## Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad

Mae'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn parhau i weithio gydag unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli i ddeall beth yw'r arfer gorau ac i feithrin perthynas barhaus ac ystyrlon â rhai o'r bobl sydd wedi'u hymddieithrio fwyaf yng Nghymru.

"Roeddwn yn astudio gwleidyddiaeth yn y brifysgol ond gadewais yn gynnar oherwydd roeddwn yn credu nad oedd lle i ddyn hoyw mewn gwleidyddiaeth. Ers bod yn rhan o Gynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru, rwyf wedi sylweddoli mai myth oedd hynny. Credaf fod hyn yn gyfle ardderchog ac rwy'n llawn cyffro ynglŷn â'i botensial. Mae wedi fy annog i ddychwelyd i'r brifysgol i ennill y radd na orffennais."

"Bydd y Cynllun Mentora yn fy ngalluogi i chwarae mwy o ran yn fy nghymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig leol, er mwyn fy ngalluogi i fod yn arweinydd gwell yn y gymuned ac i siarad ar ei rhan. Hoffwn ddefnyddio'r profiad i fy ngrymuso i wneud pethau o fewn fy nghymuned ac i rymuso pobl eraill o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gymryd rhan."

**Sylwadau gan gyfranogion Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru**

Cyfranwyr y Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru

## 06_Rhoi cymorth i Aelodau'r Cynulliad

**Gwaith pwyllgorau'r Cynulliad**
Mae Gwasanaeth y Pwyllgorau'n gyfrifol am gefnogi gwaith pwyllgorau'r Cynulliad. Wrth wneud hyn, mae'n ceisio meithrin ystyriaeth o faterion cydraddoldeb yn ei holl waith drwy sicrhau:

- bod gan y pwyllgorau'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i graffu ar waith Llywodraeth Cymru'n effeithiol mewn ffordd sy'n cydnabod effaith materion cydraddoldeb;
- bod gwaith y pwyllgorau'n hygyrch a bod y rheini sydd â gofynion amrywiol yn cael yr un cyfleoedd i gyfrannu;
- bod adroddiadau'r pwyllgor, ac unrhyw wybodaeth arall, yn cael eu darparu mewn fformatau sy'n rhoi mynediad cyfartal i bawb.

Mae materion cydraddoldeb mewn perthynas ag adeiladau o hyd yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith ymholiadau pwyllgorau ac rydym yn sicrhau bod y galwadau am dystiolaeth yn cael eu hanfon at y sefydliadau a'r grwpiau cydraddoldeb perthnasol fel y gallant gyfrannu i ymchwiliadau.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw leoliadau allanol a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor yn hygyrch a bod ein gwefan yn addas at ddefnydd pob grŵp.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp i ystyried sut y gellir ateb gofynion penodol y tystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad.

Isod, ceir enghreifftiau o sut mae gwahanol bwyllgorau wedi ystyried cydraddoldeb yn ystod 2009.

Yn ystod 2009, cyhoeddodd y **Pwyllgor Cyfle Cyfartal** adroddiadau ar wasanaethau addasu a chynnal a chadw cartrefi i bobl hŷn yng Nghymru, materion Cymreig sy'n codi o'r Mesur Seneddol ynghylch Cydraddoldeb, a gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr gofal iechyd.

I wneud y broses o gyflwyno deiseb yn fwy hygyrch, mae'r **Pwyllgor Deisebau** wedi creu canllawiau sy'n hawdd i'w darllen, wedi defnyddio cardiau i helpu sut y cyfathrebir â phobl ifanc anabl, ac wedi defnyddio fideo i dynnu sylw at ei waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd wedi gweithio gyda'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r grwpiau perthnasol ar faterion a godwyd gan ddeisebwyr.

Ystyriodd y **Pwyllgor Cyllid** faterion cydraddoldeb a thlodi ymysg plant wrth archwilio cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2009-10, a gofynnodd gwestiynau penodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bu'r **Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol** yn cymryd tystiolaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i'r polisi cydlyniant. Gan fod y polisi'n effeithio ar gyllido rhai o'r prosiectau a sefydlwyd i helpu grwpiau lleiafrifol neu grwpiau sy'n agored i niwed, cafodd y Pwyllgor gyfarfod â CGGC i glywed am brofiadau a sylwadau'r sefydliadau ar lawr gwlad.

Cafodd y **Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol** dystiolaeth gan y rheini sydd wedi dioddef strôc fel rhan o'i ymchwiliad i wasanaethau strôc. Mae hefyd wedi gweithio gyda CGGC i sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt gan strôc yn cael eu cynrychioli yn yr ymchwiliad.

Mae'r **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** yn ymgynghori'n rheolaidd â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Er enghraifft, ar gyfer ei ymchwiliad i gyllidebu ar gyfer plant, ymgynghorodd â nifer o sefydliadau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r Pwyllgor wedi datblygu dulliau blaengar o gasglu tystiolaeth. Er enghraifft, mae ei aelodau wedi cyfarfod yn anffurfiol â rhieni i sicrhau bod ganddynt gyfle i drafod eu syniadau, ac wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyfan. Cafodd y rhieni gyfarfod â Phlant yng Nghymru i'w paratoi ar gyfer cyfarfod â'r aelodau. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, roedd cyfleusterau gofal plant ar gael ar gyfer y plant oedd wedi dod gyda'u rhieni.

Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi cyfarfod yn anffurfiol â phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal, fel rhan o'u hymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer rhoi plant mewn gofal yng Nghymru. Arweiniwyd y cyfarfod gan Voices from Care.

Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth ffurfiol ar lafar gan Plant Anabl yn Cyfri, ac roedd un o'r tystion yn berson ifanc anabl.

Aeth aelodau o'r **Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant** ar ymweliad i gartref diogel i blant a sefydliadau troseddwyr ifanc yn ystod ei ymchwiliad i gyfiawnder ieuenctid. Clywodd yr aelodau dystiolaeth gan droseddwyr ifanc yn ystod yr ymweliadau hyn. Weithiau, roedd y bobl ifanc yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda'r aelodau ac ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor i sicrhau bod cyfle iddynt fod yn agored ac i sôn am eu profiadau yn yr ystâd ddiogeledd.

Cafwyd llwyddiant uniongyrchol yn sgil deiseb a gyflwynwyd gan Ysgol Hen Felin yn y Rhondda. Cyflwynwyd y ddeiseb gan y disgyblion, ac roedd yn galw am fwy o weithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer plant ifanc anabl. Cyflwynodd dau o'r disgyblion eu hachos i'r Pwyllgor a chyhoeddodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod arian ychwanegol yn cael ei ddarparu. Rhoddwyd y newyddion i'r disgyblion ar ffurf clip fideo byr, hygyrch.

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**
Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth cyfrinachol a diduedd, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i bwyllgorau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad.

Mae gan y gwasanaeth ganllawiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu prif-ffrydio yn y papurau briffio ar gyfer Aelodau unigol a'r pwyllgorau. Er enghraifft, mae materion cydraddoldeb bob tro'n cael eu hystyried bob tro wrth ddarparu cwestiynau posibl ar gyfer pob pwyllgor.

Mae'r gwaith a wneir gan staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn sail i waith y pwyllgorau. Mae ganddynt wybodaeth am bob pwnc a sgiliau ymchwil i sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymgysylltu â gwaith y pwyllgorau. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb ym mhapurau briffio'r Aelodau ac yn sicrhau bod pobl sydd ag amrywiaeth eang o safbwyntiau yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

Enghraifft arall o arfer da yw bod y pynciau a awgrymir ar gyfer cwestiynau yn cael eu dosbarthu i ymchwilwyr gan ystyried cydraddoldeb fel y gallant eu cynnwys yn y papurau briffio ar y gyllideb ar gyfer pwyllgorau.

Mae'r Arweinydd Cydraddoldeb o fewn y Gwasanaeth hefyd wedi dosbarthu amcanion posibl i'w cynnwys mewn Adroddiadau Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad staff i sicrhau bod ymchwilwyr yn ymwybodol o ystyriaethau cydraddoldeb. Mae timau gwahanol o fewn y Gwasanaeth wedi defnyddio'r rhain mewn amryw o ffyrdd.

**Rheoli Ystadau a Chyfleusterau**
Mae ystâd y Cynulliad yn hygyrch i Aelodau, eu staff ac ymwelwyr. Mae cyllideb ar gael ar gyfer addasiadau rhesymol i'n hadeiladau neu i swyddfeydd rhanbarthol / etholaethol Aelodau yn ôl yr angen.

**Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad**
Mae tîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad yn ffynhonnell o wybodaeth, cyngor a chanllawiau i'r holl Aelodau. Gellir gofyn am gymorth ar unrhyw faterion mynediad neu gydraddoldeb y mae Aelodau'n cael gwybod amdanynt mewn perthynas â'u hetholwyr, eu staff neu fusnes y Cynulliad.
Mae'r tîm hefyd yn darparu cyllideb i dalu am gymorth cyfathrebu ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar.

# 07_Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

**Adeiladau hygyrch**
Mae gwella a chynyddu mynediad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae rhaglen o welliannau ar waith ar draws ystâd y Cynulliad. Mae'r rhai o'r gwelliannau hynny'n cynnwys:

– cyfnewid yr arwyddion Braille a'r arwyddion gweledol yn y mannau cyhoeddus yn Nhŷ Hywel am arwyddion sy'n cydymffurfio â'r Good Sign Guide;
– gwelliannau i fynedfa Tŷ Hywel i wella'r mynediad i gwsmeriaid a staff.

Gwahoddwyd grŵp allanol o bobl anabl hefyd i roi cymorth parhaus ar bolisïau, arferion a gweithdrefnau'r Cynulliad.

Gan fod y Pierhead yn adeilad rhestredig Gradd 1, mae'r gwaith o'i adnewyddu'n cyflwyno nifer o heriau o ran newidiadau mynediad. Mae pob dim y gellir ei wneud i sicrhau bod yr adeilad yn hygyrch i staff ac ymwelwyr yn cael ei gynnwys yn nyluniad y gwaith adnewyddu.

Ar ôl ymgynghori â'r gymuned Sikh, gwnaethom ddatblygu canllawiau i alluogi Sikhiaid sy'n cario cyllell seremoniol y kirpan gael mynediad i ystâd y Cynulliad. Gall ymwelwyr gyfnewid eu kirpan am fersiwn llai o'r gyllell i'w defnyddio yn ystod eu hymweliad â'r adeilad.



Ymwelwyr yn y Senedd

**Trafodion hygyrch**
Mae cymorth cyfathrebu ar gael ar gyfer gwylio trafodion y Cyfarfod Llawn neu'r pwyllgorau os gwneir cais amdano o leiaf 14 niwrnod cyn y cyfarfod dan sylw. Mae gan bob un o'n mannau busnes ddolenni sain. Gall y cymorth sydd ar gael gynnwys darparu gwasanaeth dehongli laith Arwyddion Prydain. Mewn dadl fer ar wybodaeth newyddion i ddefnyddwyr laith Arwyddion Prydain, er enghraifft, roedd dehonglwr ar gael ar gyfer y bobl oedd yn gwylio yn yr oriel gyhoeddus, ar y teledu neu ar-lein.

**Gwybodaeth hygyrch**
Mae Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau arddull a phecyn cymorth gwybodaeth hygyrch ar gyfer staff i sicrhau bod ein holl wybodaeth ysgrifenedig yn hygyrch. Gwnaed gwaith ymchwil i sicrhau bod y pecyn cymorth ymarferol yn cynrychioli'r arfer gorau. Mae'r arddulliadur a'r pecyn cymorth ar gael i'r holl staff.

Mae gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar hygyrchedd ar gael drwy'r amser i staff y Cynulliad gan y tîm Cydraddoldeb a Mynediad.

"Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o ddull **proffesiynol, diffwdan a chydymdeimladol** tîm diogelwch y Cynulliad o ymdrin â menywod Mwslemaidd sy'n ymweld â'r Cynulliad."

**Sylwadau gan ymwelydd i'r Cynulliad.**

# 08_Rhagolwg – y blaenoriaethau ar gyfer 2010

**Polisi i atal cam-drin domestig**
Mewn ymgynghoriad â'r undebau llafur a'n rhwydweithiau staff, rydym wedi datblygu polisi i gefnogi staff sy'n dioddef cam-drin domestig. Rydym yn cydnabod bod angen cefnogaeth ar staff drwy gyfnodau anodd fel hyn. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r Bwrdd Rheoli gymeradwyo'r polisi cyn i ni ei lansio.

**Polisi ar gyfer pobl trawsrywiol**
Rydym wrthi'n datblygu polisi i gefnogi aelodau staff sy'n drawsrywiol. Rydym yn cael cyngor gan arbenigwyr ar drawsrywedd i sicrhau y bydd y polisi'n diwallu anghenion staff.

**Taflenni ffeithiau i Aelodau**
Rydym yn datblygu taflenni ffeithiau i Aelodau'r Cynulliad, sy'n cynnwys canllawiau ar eu dyletswyddau fel cyflogwyr o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i Aelodau yn 2010.

**Ymgysylltu parhaus â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol**
Bydd y Cynulliad yn parhau i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. Bydd gan staff ar draws y sefydliad ran i'w chwarae yn hynny.

**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**
Rydym wrthi'n datblygu ein Dull o Asesu Effaith Cydraddoldeb, a fydd yn hwyluso'r broses o gynnal asesiadau effaith. Unwaith y caiff y dull ei ddatblygu, bydd yn cael ei ddefnyddio gan bob aelod staff. Disgwylir i hyn gael ei roi ar waith yn 2010.

**Rheoli Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru**
Mae'r Cynllun Mentora'n parhau tan fis Ebrill 2010, pryd y bydd yn cael ei werthuso. Bydd cydgysylltydd y cynllun yn parhau i roi cymorth i bawb sy'n cael eu mentora a'r mentoriaid yn ystod cyfnod y cynllun.

**Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â chydraddoldeb**
Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb i staff ar draws y sefydliad ac i hyrwyddo digwyddiadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb i staff er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i ddatblygu wythnos cydraddoldeb ac amrywiaeth yn 2010 i godi ymwybyddiaeth ynghylch materion cydraddoldeb a hawliau dynol.

**Gweithredu Polisi Gwybodaeth Hygyrch ar draws y sefydliad**
Yn ogystal â chyhoeddi ein Canllawiau Arddull, bydd y tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gyda'r Tîm Cyhoeddiadau i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r Polisi Gwybodaeth Hygyrch.

**Annog staff i ddiweddaru eu manylion personol er mwyn casglu gwybodaeth am gydraddoldeb**
Ar ôl lansio ein system rheoli gwybodaeth Adnoddau Dynol newydd, byddwn yn annog pob aelod staff i lenwi'r adran Manylion Personol i sicrhau ein bod yn casglu proffil amrywiaeth ein gweithlu.

**Datblygu strategaeth hyfforddiant ar ein polisi Urddas yn y Gwaith newydd a chydraddoldeb ac amrywiaeth**
Bydd y tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr adran Adnoddau Dynol i ddatblygu strategaeth i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisi Urddas yn y Gwaith newydd. Bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gyfuno â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i gadarnhau ein statws fel cyflogwyr cyfle cyfartal.

**Safle cydraddoldeb ar y we**
Yn ystod 2010, byddwn yn datblygu ein safle cydraddoldeb ar y we fel y bydd yn adnodd sy'n cynnwys mwy o wybodaeth ar gyfer ein staff ac Aelodau'r Cynulliad.

# Atodiad A: Cynnydd o ran amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu

## Cynllun gweithredu – cynllunio a rheoli corfforaethol

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A1 | Cynllun Cydraddoldeb effeithiol ar waith sy'n cael ei fonitro, ac y ceir adroddiad rheolaidd ar yr amcanion cydraddoldeb ynddo a'n cynnydd wrth eu cyflawni |

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu ym mis Tachwedd 2008. Cyfnod y Cynllun yw 2008-11. Dyma'r adroddiad diweddaru cyntaf. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein a bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn craffu arno.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A2 | Cynllun a Chynllun Gweithredu sy'n cael ei adolygu'n allanol bob tair blynedd |

Amcan Blwyddyn 3. Dim camau gweithredu i'w nodi.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A3 | Amcanion cydraddoldeb yn cael eu hystyried mewn prosesau cynllunio gwaith meysydd gwasanaeth |

Mae'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwasanaeth pob maes gwasanaeth.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A4 | Polisïau newydd a rhai arfaethedig yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb a staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni hyn |

Rydym wrthi'n datblygu ein dull o asesu'r effaith ar gydraddoldeb, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar draws y sefydliad yn 2010, a bydd hyfforddiant i staff ar sut i'w ddefnyddio.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A5 | Polisïau newydd a rhai arfaethedig yn cael eu hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb a staff yn cael eu hyfforddi i gyflawni hyn |

Rydym yn ymgynghori â'r undebau llafur a'r Rhwydweithiau Staff ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phobl anabl wrth ddatblygu polisïau corfforaethol sy'n effeithio ar staff, megis polisïau Urddas yn y Gwaith, Disgyblaeth a Chwyno'r Cynulliad. Mae gennym Grŵp Llywio Cydraddoldeb hefyd sy'n cynnwys rhai o Arweinwyr Cydraddoldeb y sefydliad, sydd hefyd yn rhoi ei farn ar ddatblygiadau. Wedi i ni ddatblygu ein safle ar y fewnrwyd, bydd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael ar y fewnrwyd.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A6 | Rhwydweithiau / perthnasoedd gweithio allanol effeithiol ar waith i ddarparu sail ar gyfer ein gwaith ar gydraddoldeb |

Rydym wedi sefydlu grŵp o unigolion cyswllt allanol sy'n rhoi cyngor ar faterion mynediad i bobl anabl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal ein Cynllun Mentora. Drwy'r Cynllun, rydym wedi datblygu cysylltiadau ag unigolion a sefydliadau ym maes cydraddoldeb. Mae gan ein Tîm Cydraddoldeb a Mynediad hefyd unigolion cyswllt yn Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a sefydliadau ac unigolion cynrychioliadol.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A7 | Cyngor amserol a manwl gywir ar faterion cydraddoldeb, mynediad a hawliau dynol ar gael i staff ac Aelodau'r Cynulliad |

Mae'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn adnodd arbennig sydd ar gael i'r holl staff ac Aelodau'r Cynulliad. Byddwn yn datblygu ein safle cydraddoldeb ar y fewnrwyd fel adnodd ar gyfer staff ac Aelodau'r Cynulliad yn ystod 2010.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A8 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ac Aelodau'r Cynulliad o gydraddoldeb, mynediad a hawliau dynol |

Buom yn codi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn, drwy erthyglau a gyhoeddwyd yn ein cylchgrawn staff ar amrywiaeth o faterion cydraddoldeb, ar draws y meysydd cydraddoldeb. Mae'r pynciau yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2009 yn cynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwali, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, cofnodi troseddau casineb, Mela rhyngddiwyllianol Caerdydd a Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn.

Datblygwyd taflenni ffeithiau i Aelodau'r Cynulliad sy'n amlinellu'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a fydd ganddynt yn 2010.

Rhoddir hyfforddiant cydraddoldeb i staff newydd fel rhan o'r Hyfforddiant Cychwynnol Corfforaethol. Yn ogystal, mae hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmeriaid, hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o bobl fyddar a hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl yn rhoi cyfleoedd pellach i'r staff gymryd rhan ac i gael mwy o wybodaeth.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| A9 | Ymgysylltu mwy ag aelodau cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, â'r nod o hybu ac ehangu ymgysylltu â democratiaeth a chymryd rhan ynddi |

Cysylltwyd â nifer o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy Gynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru. Diben y Cynllun yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyfranogwyr a'u cymunedau o ddemocratiaeth ac ymgysylltiad dinasyddion yng Nghymru. Rydym wedi datblygu Grŵp Llywio o'r sefydliadu sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn i helpu i lunio'r cynllun.

Mae ein timau Allgymorth a Chydraddoldeb a Mynediad wedi cysylltu â nifer o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystod 2009 a byddant yn parhau i gynyddu nifer y grwpiau hynny yn ystod 2010.

**Cynllun gweithredu – adnoddau dynol**

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B1 | Ein swyddi gwag yn cyrraedd y grwpiau lleol hynny sy'n cynrychioli pobl o dras ethnig leiafrifol ac yn denu'r nifer o geisiadau oddi wrth y grwpiau hyn sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol, gyda golwg ar estyn hyn fesul cam i'r meysydd cydraddoldeb eraill |

Rydym wedi hysbysu amrywiaeth o sefydliadau ynglŷn â'r swyddi gwag yn y Cynulliad, gan gynnwys Canolfan Fenter De Caerdydd a Mencap. Mae swyddi wedi cael eu hysbysebu hefyd mewn canolfan waith sydd â chysylltiadau ag asiantaethau eraill sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd a dyddiau cwrdd i ffwrdd i hyrwyddo'r Cynulliad fel cyflogwr posibl.

Rydym hefyd wedi ehangu ein dull o hysbysebu i ddenu'r cynulleidfaoedd priodol. Rydym wedi defnyddio'r UK Urba Wall Planner, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, canllawiau 'Starting Out' Stonewall, ac Equality Britain i hyrwyddo'r Cynulliad.

Mae ein polisi recriwtio newydd yn cefnogi ein rhaglen allgymorth gan ei fod yn cynyddu'r cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wneud cais am bob swydd yn y Cynulliad. Mae'r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn 2010.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B2 | Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, Aelodau'r Cynulliad a staff Aelodau'r Cynulliad o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb/hawliau dynol a'r meysydd cydraddoldeb a ganlyn: oedran, anabledd, rhywedd/hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd/credo a thueddfryd rhywiol. Hefyd, dealltwriaeth o oblygiadau'r Cynllun Cydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus |

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi gweithio gyda'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae pob aelod o'n staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a diwylliant ac mae'r hyfforddiant wedi cael ei gynnig i bod aelod staff. Ar ôl cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant, bydd strategaeth hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei gwblhau yn 2010.

Cynigwyd hyfforddiant i'r holl Aelodau a'u staff cymorth ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol. Gall Aelodau a'u staff cymorth fanteisio hefyd ar yr hyfforddiant cychwynnol a roddir i bob aelod staff newydd yn y Cynulliad.

Datblygwyd taflenni gwybodaeth i alluogi Aelodau a'u staff i ddarparu gwasanaethau i'w hetholwyr a'r cyhoedd. Mae'r taflenni hyn yn cynnwys amrywiaeth o faterion cydraddoldeb, hawliau dynol a gwasanaeth cwsmeriaid ac fe'u cyhoeddir yn 2010.

Yn ystod 2009, dechreuodd tîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu nodau ac amcanion y Cynllun Cydraddoldeb i bob Maes Gwasanaeth yn y sefydliad. Drwy rannu gwerthoedd craidd y Cynllun, rydym yn sicrhau bod pob aelod staff yn cydnabod ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Bydd yr adran Cydraddoldeb a Mynediad ar y fewnrwyd yn cael ei datblygu yn 2010 i ddarparu adnodd gwerthfawr i staff ac Aelodau.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B3 | Bwlio ac aflonyddu'n cael eu cymryd o ddifrif a staff wedi'u haddysgu am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau |

Buom yn gweithio gyda'r undebau llafur a'r Rhwydweithiau Staff ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phobl anabl i adolygu a diwygio polisïau Urddas yn y Gwaith, Disgyblaeth a Chwyno'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r polisïau gael eu cymeradwyo'n derfynol a byddant yn cael eu lansio maes o law. Yn dilyn y lansiad, bydd hyfforddiant ar gael i staff ar eu cyfrifoldebau.

Bydd gwirfoddolwyr o'r Rhwydweithiau ar gyfer pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn gweithredu fel swyddogion atal aflonyddu, ynghyd â gwirfoddolwyr o'r Cynulliad. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl wirfoddolwyr hyn.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B4 | Graddau'n cael eu monitro ac unrhyw wahaniaethau o ran rhywedd yn cael sylw |

Nododd ein Hadolygiad Cyflog Cyfatal enghreifftiau o lle y gallai gwahaniaethu rhwng y rhywiau fodoli. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad C.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B5 | Polisïau cyflogaeth sy'n ystyried gofynion deddfwriaethol newidiol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol |

Rydym yn cynnal adolygiadau o'n polisïau/gweithdrefnau pobl. Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau adolygiadau o'n polisïau a'n gweithdrefnau ar amser hyblyg, gweithio gartref, urddas yn y gwaith, disgyblaeth a chwyno.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B6 | Ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori mewn prosesau recriwtio (gan gynnwys gweithio hyblyg, rhannu swyddi a threfniadau gweithio gartref) |

Mae pob swydd ar gael i staff ar sail hyblyg, os nad yw'r anghenion busnes yn golygu nad yw hynny'n bosibl. Mae angen gwneud cais busnes ar gyfer y swyddi hynny nad yw'n bosibl gweithio'n hyblyg ynddynt. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol i sicrhau y gellir cyfiawnhau'r anghenion busnes a'n bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B7 | Data gwell ar gydraddoldeb staff ar gael. Data wedi'u casglu a'u cofnodi ac ar gael yn rhwydd o fonitro polisïau cyflogaeth |

Gan ddefnyddio sylwadau gan gyflogeion a'r Rhwydweithiau Staff ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phobl anabl, mae'r sgrin data personol ar gyfer Snowdrop U-Access yn cael ei ail-ddylunio i annog pobl i gofnodi mwy o wybodaeth. Bydd y system Snowdrop newydd i gofnodi data yn cael ei chyflwyno ym mis Tachwedd 2009, a bydd staff yn cael eu hannog wedyn i lenwi'r adrannau perthnasol.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B8 | Egwyddor cydraddoldeb wedi'i hymgorffori yn ein strategaeth gyflogau sy'n dod i'r amlwg |

Cynhaliwyd Adolygiad Cyflog Cyfartal – mae'r canlyniadau i'w cael yn Atodiad C

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B9 | Gweithwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth ac yn cyfrannu at ddatblygu polisïau a allai effeithio arnynt (rhwydweithiau staff) |

Ar hyn o bryd, mae gennym ddwy rwydwaith staff. Rydym wedi ymgynghori â'n Rhwydweithiau Staff ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a phobl anabl, ochr yn ochr â'r undebau llafur, ynglŷn â datblygu ac adolygu polisi newydd. Yn 2009, cyfrannodd y rhwydweithiau staff at ddatblygu ein polisïau Urddas yn y Gwaith, Disgyblaeth a Chwyno.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B10 | Ein trefniadau cynefino diwygiedig i staff newydd yn gosod pwyslais priodol ar ein dyletswyddau / ymrwymiadau cydraddoldeb, a'r trefniadau hyn yn cael eu rhannu â staff Aelodau'r Cynulliad fel bo'n briodol |

Rhoddir hyfforddiant cychwynnol ar gydraddoldeb a hawliau dynol i bob aelod staff newydd yn y Cynulliad, a chaiff ei gynnig i staff cymorth yr Aelodau. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys sicrhau bod cydweithwyr a defnyddwyr y gwasanaethau yn cael eu trin â pharch ac urddas, a hefyd materion sy'n ymwneud â phob maes cydraddoldeb.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| B11 | Cynllun peilot wedi'i gyflwyno i hybu aseiniadau gwaith ar gyfer pobl o dras ethnig leiafrifol a'i gyflwyno fesul cam i feysydd eraill ar ôl adolygu'r cynllun peilot |

Mae aseiniadau yn y gweithle i bobl lleiafriol ethnig yn cael eu harchwilio fel rhan o'n strategaeth recriwtio ac allgymorth. Rydym hefyd yn datblygu cynllun lleoliad gwaith i alluogi person sydd ag anabledd dysgu i gael lleoliad gwaith dros dro yn y Cynulliad.

**Cynllun gweithredu – Cyfathrebu Allanol**

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| C1 | Gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith yn hygyrch i bawb. Mwy o ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad ledled pob sector o'r gymdeithas |

Rydym wedi datblygu strategaeth addysg ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a thu hwnt sy'n ystyried materion cydraddoldeb. Mae'r Cynulliad yn cynnig rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer ysgolion addysg arbennig a gwasanaeth allgymorth addysg.

Mae dogfennau sain, fideo a Word yn cael eu paratoi ar gyfer pob datganiad i'r wasg, gan gynyddu eu hygyrchedd ar gyfer trawsdoriad o grwpiau gwahanol.

Mae ein tîm Allgymorth yn gweithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. Targedodd taith y Llywydd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r holl wybodaeth am y Cynulliad ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Rydym wedi datblygu pecyn cymorth hygyrch i sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddwn yn hygyrch i'r cyhoedd.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| C2 | Cyhoeddiadau'r Cynulliad â delweddau sy'n cynrychioli cymdeithas amrywiol yng Nghymru |

Mae cronfa ddata o ddelweddau'n cael ei chadw gan y tîm Cyfathrebu Allanol. Datblygwyd delweddau newydd i gyd-fynd â brand newydd y Cynulliad, sy'n cynnwys delweddau o amrywiaeth. Un enghraifft yw Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon y Cynulliad.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| C3 | Datganiadau i'r wasg/y cyfryngau'n cael eu hanfon at sefydliadau sy'n cynnwys grwpiau/sefydliadau cynrychioladol a allai gynrychioli'r buddiannau cydraddoldeb |

Rydym wedi datblygu rhestr o sefydliadau ac unigolion sy'n cael datganiadau i'r wasg gan ein tîm Cyswllt â'r Cyfryngau pan ystyrir bod y pwnc dan sylw yn berthnasol i'w maes hwy. Er enghraifft, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol adroddiad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl yng Nghymru, a anfonwyd at nifer o elusennau a sefydliadau iechyd meddwl, yn ogystal ag at y wasg arferol.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| C4 | Pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn defnyddio'r Senedd a'n hadeiladau eraill ac yn ymweld â nhw |

Ar hyn o bryd, ni allwn ddarparu tystiolaeth meintiol ar yr ymwelwyr i'r Senedd. Rydym wedi cwblhau Arolwg Gadael y Senedd a byddwn cyn hir yn gosod pod rhyngweithiol yn y Senedd lle gall pobl wneud sylwadau. Bydd system atborth ar bapur ar gael hefyd.

Mae ein Tîm Allgymorth yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ledled Cymru, gan eu hannog i ymweld â'r Senedd.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| C5 | Teithiau tywysedig o amgylch y Senedd, sy'n hygyrch i ymwelwyr â nam ar y synhwyrau |

Mae adolygiad o hygyrchedd ein deunydd darllen yn parhau, yn unol â'n polisi gwybodaeth hygyrch. Mae teithiau ar gael i bawb yng Nghymru a bydd gofynion penodol yn cael eu hateb pan fo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Mae teithiau sy'n defnyddio dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain ar gael os trefnir hwy o flaen llaw.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| C6 | Cynnydd yn nifer y bobl ifanc anabl a'r bobl ifanc o dras ethnig leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn grwpiau yng nghanolfan addysg y Cynulliad |

Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru i hyrwyddo'r Cynulliad fel lle y gall plant a phobl ifanc ymweld ag ef.

Er ein bod yn targedu ysgolion anghenion addysgol arbennig ac ysgolion prif-ffrwd sydd ag unedau anghenion addysgol arbennig, nid oeddem yn gallu targedu plant o grwpiau lleiafrifol ethnig gwahanol yn benodol. Ni allwn ychwaith fonitro ethnigrwydd y plant sy'n ymweld â'r ganolfan addysg.

Rydym wedi cynhyrchu cronfa ddata o'r holl unedau cyfeirio disgyblion ac mae un o'n Swyddogion Allgymorth Addysg wedi cysylltu ag ysgol arbennig i gael mwy o wybodaeth am sut y dylem ddysgu disgyblion ag anghenion arbennig. Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio sesiwn hyfforddiant i athrawon sy'n dysgu myfyrwyr ag anghenion arbennig ar gyfer mis Ionawr 2010. Rydym yn croesawu SportStrain Wales i'r Cynulliad bob blwyddyn. Dyma grŵp o ddisgyblion a waharddwyd o addysg prif-ffrwd.

Mae'r timau Addysg a Chydraddoldeb wedi cynnal cynhadledd yn y ganolfan addysg i bwysleisio'r materion y mae pobl ifanc anabl yn eu hwynebu.

Mae Siambr Hywel yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu am y Cynulliad.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| C7 | Digwyddiadau'r Cynulliad ledled Cymru yn fwy hygyrch i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol |

Cynrychiolwyd y Cynulliad mewn cyfres o ddigwyddiadau yn ystod yr haf mewn amrywiaeth o leoliadau hygyrch ledled Cymru. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala, a Mardi Gras Caerdydd-Cymru. Gwnaeth troesdoriad mawr o gymdeithas Cymru ymgysylltu â'r Cynulliad yn y digwyddiadau hyn drwy weithgareddau rhyngweithiol, ar-lein ac amrywiaeth o holiaduron.

Mae ein tîm Allgymorth yn gwneud cyflwyniadau i grwpiau cynrychioliadol ledled Cymru.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| C8 | Pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gwylio a/neu'n ymgysylltu â thrafodion y Cynulliad (e.e. pwyllgorau, Cyfarfodydd llawn a'r system ddeisebau) |

Mae ein strategaeth e-ddemocratiaeth newydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau i dargedu grwpiau gwahanol gan ddefnyddio'r cyfrwng priodol ar gyfer y grwpiau hynny, megis ffeiliau sain a fideo. Mae dogfennau sy'n hawdd i'w darllen yn cael eu datblygu hefyd fel fersiynau crynhoi hygyrch o ddogfennau allweddol y Cynulliad. Mae cyfarwyddiadau clir ym mhob dogfen allweddol sy'n nodi ei bod ar gael mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd yn ôl yr angen.

Cyhoeddwyd taflenni hygyrch i sicrhau bod pobl yn ymgysylltu â'r system ddeisebau.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| C9 | Staff ar y rheng flaen sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n teimlo'n hyderus wrth groesawu pobl ag anghenion gwahanol i'r Cynulliad |

Mae'r holl staff rheng flaen wedi mynychu'r cwrs hyfforddi ar ddiwylliant, mynediad ac amrywiaeth, sydd â'r nod o gynyddu gwybodaeth a sgiliau staff sy'n croesawu ymwelwyr sydd ag anghenion amrywiol. Mae staff rheng flaen hefyd wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o bobl fyddar a phobl byddar a dall i gynyddu eu hyder wrth ymdrin ag ymwelwyr sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol.

**Cynllun gweithredu – TGCh**

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| D1 | Gwefan hygyrch y gall pawb, gan gynnwys pobl anabl, ei chyrchu'n rhwydd |

Mae hygyrchedd y wefan wedi aros yn sefydlog, ac mae unrhyw safleoedd newydd wedi cyrraedd y lefel y cytunwyd arni o leiaf. Mae'r atborth a gafwyd yn chwarae rhan bwysig yn y gofynion ar gyfer y dyfodol ac mae wedi arwain at ystyried gwefan 'Addysg' newydd ar gyfer ein defnyddwyr iau, i'w galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r Cynulliad.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| D2 | Cyfarpar TG sy'n hygyrch ac ar gael i staff ag anghenion penodol mewn modd amserol |

Rhoddir cyfarpar arbenigol i ddefnyddwyr unigol yn ôl yr angen. Mae'r Cynulliad ar fin cynnal rhaglen ar y dechnoleg ddiweddaraf a bydd defnyddwyr yn cael eu gwahodd i'r Swyddfa Fodel i adolygu'r dechnoleg a'r system weithredu sy'n cael eu rhoi ar waith. Rydym wedi datblygu Grŵp Cyfeirio Defnyddwyr sydd wedi gwneud sylwadau ar y gofynion ac sy'n cyfleu canlyniadau'r prosiect i'w timau amrywiol.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| D3 | Nodweddion newydd ar gyfer y wefan wedi'u datblygu i alluogi ymgysylltiad cyhoeddus llawn a chyfartal |

Gwneir unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau i'r wefan, er enghraifft o ran e-ddeisebau ac ati, fel nad ydynt yn effeithio ar ein hymrwymiad i hygyrchedd. Pan fydd y prosiect ar y wefan newydd yn dechrau, bydd y gofynion o ran hygyrchedd, y bydd y Cynulliad yn ystyried eu bod yn briodol, yn cael eu cynnwys yn y fanyleb.

### Cynllun gweithredu – rheoli caffael / cyflenwi

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| E1 | Ein cyflenwyr yn gweithredu i'r safon uchaf o ran materion cydraddoldeb; rhoi arwydd clir i'r gadwyn gyflenwi bod cydraddoldeb yn bwysig inni fel sefydliad ac y byddai disgwyl i gyflenwyr ymddwyn yn yr un modd |

Mae System Gaffael y Cynulliad yn seiliedig ar gyfres o werthoedd sylfaenol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r broses gaffael ystyried cydraddoldeb yn llawn. Rydym yn ystyried bod materion cydraddoldeb yn rhan o agwedd gymdeithasol cynaliadwyedd. Mae ein hegwyddorion cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio ymhellach yn ein polisi caffael, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ein cyflenwyr, ein hymgynghorwyr a'n contractwyr yn rhannu ein hymrwymiad i gydraddoldeb a'u bod yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r gofynion hyn wedyn yn cael eu cynnwys mewn canllawiau i reolwyr contractau ac yn ein templed manyleb safonol, sy'n eu cynorthwyo i gynnwys cyfeiriad at gydraddoldeb ym mhob manyleb contract. O ganlyniad i hynny, mae cydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal yn amod ym mhob contract y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhan ohono. Mae torri'r amod hwnnw yn golygu torri'r contract, a byddwn yn ymdrin â hynny yn unol â'r weithdrefn a nodir yn ein contract telerau ac amodau safonol. Mae hyn yn cynnwys opsiwn i derfynu'r contract.

### Cynllun gweithredu – rheoli cyfleusterau ac ystadau

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| F1 | Adeiladau sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn amgylcheddau glân i staff, staff dan gontract, Aelodau'r Cynulliad, eu staff nhw ac ymwelwyr |

Mae'r tîm Cyfleusterau ac Ystadau yn sicrhau bod adeiladau'r ystâd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005, y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae'r tîm yn ymgynghori â'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch a'r Cynghorydd Mynediad cyn gwneud unrhyw newidiadau.

Gwnaed y newidiadau a ganlyn i Dŷ Hywel ac adeilad y Senedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bob aelod staff, Aelodau'r Cynulliad ac ymwelwyr:

**Tŷ Hywel**
—Adnoddau newid ychwanegol ar gyfer y staff arlwyo fel bod adnoddau ar wahân ar gyfer dynion a menywod;
—lefelu'r ramp sy'n arwain at y brif fynedfa;
—newid y palmant pothellog ar y grisiau i'r brif fynedfa i balmant â rhigolau

**Y Senedd**
—Ymestyn y canllawiau dur gloyw allanol i osgoi damweiniau.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| F2 | Lleoedd gwaith ar gyfer staff, Aelodau'r Cynulliad, eu staff nhw a staff eraill dan gontract sy'n ergonomig ac yn hygyrch |

Cynhelir asesiadau o weithfannau staff i sicrhau bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Mae cyfarpar arbenigol ar gael pan fydd ei angen i sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfforddus yn ei amgylchedd waith. Mae nifer yr asesiadau a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf wedi cynyddu 13.5%.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| F3 | Asesiadau Iechyd a Diogelwch a Risg sy'n ystyried materion cydraddoldeb a mynediad |

Mae ein tîm Iechyd a Diogelwch yn cynnal asesiadau risg i sicrhau bod ein hadeiladau'n hygyrch ac yn ystyried materion cydraddoldeb. Gwnaed newidiadau lle y nodwyd bod problemau, ee y waliau isel y tu allan i'r Senedd a'r graddiant y tu allan i fynedfa Tŷ Hywel.

Mae ein tîm yn ymgynghori â thîm Cydraddoldeb a Mynediad y Cynulliad i gael cyngor yn ôl yr angen.

**Cynllun gweithredu – y tîm Diogelwch**

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| G1 | Staff tîm diogelwch eiddo sy'n broffesiynol, sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n teimlo'n hyderus i ddelio ag ystod amrywiol o ymwelwyr ag anghenion gwahanol |

Mae ein holl staff diogelwch wedi bod ar gwrs hyfforddiant ar Ddiwylliant, Mynediad ac Amrywiaeth i godi eu hymwybyddiaeth ynglŷn ag anghenion amrywiol yr unigolion sy'n ymweld â'r Cynulliad. Hefyd, mae'r staff diogelwch wedi mynychu cwrs ar sut i gynorthwyo pobl i adael yr adeilad drwy ddefnyddio'r gadair argyfwng os oes tân, cyrsiau ymwybyddiaeth o bobl ddall a phobl ddall a byddar, a chyrsiau laith Arwyddion Prydain. Mae gweithdrefnau'n bodoli i sicrhau y caiff anghenion ymwelwyr eu diwallu, gan gynnwys y rheini sy'n cario kirpan (cyllell seremoniol y Sikhiaid). Gall menywod sy'n ymweld ofyn i gael menyw i gynnal y prawf diogelwch ac mae cadeiriau olwyn a chyfarpar cymorth arall ar gael yn ôl yr angen.

## Cynllun gweithredu – busnes y Cynulliad

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| H1 | Aelodau'n cael cyfleoedd i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn eu gwaith yn y Cynulliad ac yn eu hetholaethau |

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n paratoi papurau briffio i Aelodau unigol a phwyllgorau'r Cynulliad. Mae Arweinydd Cydraddoldeb y gwasanaeth wedi drafftio canllawiau ar gyfer sut i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn gwaith ysgrifenedig ac wedi cynnal seminarau ar ystyried materion cydraddoldeb. Bydd gofyn i'r ymchwilwyr ddangos tystiolaeth o lle y maent wedi cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Mae'r Arweinydd Cydraddoldeb hefyd wedi anfon pynciau posibl ar gyfer cwestiynau o safbwynt cydraddoldeb i ymchwilwyr eu cynnwys yn eu papurau briffio ar y gyllideb i bwyllgorau.

Mae staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n cynnwys cydraddoldeb yn y papurau briffio i Aelodau. Caiff pynciau posibl ar gyfer cwestiynau eu drafftio fel eu bod yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Caiff y papurau briffio eu gwirio gan gydweithwyr i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| H2 | Cynnyrch ymchwil a gyhoeddir ar dudalennau gwe Cynulliad Cenedlaethol Cymru mor hygyrch â phosibl |

Mae'r papurau ymchwil ar gael mewn fformatau amgen ar gais. Mae'r holl gyhoeddiadau ar gael ar-lein ac maent yn cynnwys datganiad sy'n nodi bod y cyhoeddiadau ar gael mewn unrhyw fformat y gofynnir amdano.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| H3 | Ymgynghori perthnasol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol pan mae pwyllgorau craffu a deddfwriaethol yn galw am dystiolaeth |

Mae'r tîm Cyswllt â'r Cyfryngau yn cydweithio â Chyfarwyddiaeth Fusnes y Cynulliad i greu cronfa ddata o bobl a hoffai gael manylion am ymgynghoriadau pwyllgorau. Bydd y gronfa ddata yn ei gwneud yn haws i staff ofyn am sylwadau na fyddent wedi eu cael fel arall.

Ar hyn o bryd, mae gan bob maes gwasanaeth ei gronfa data ei hun o bobl yr ymgynghorir â hwy ar gyfer pob ymgynghoriad, sy'n cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Cynghrair Henoed Cymru, Race Equality Wales a Stonewall Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Swyddfa Ddeddfwriaeth, er enghraifft, wedi cael ymatebion i ymgynghoriadau gan y sefydliadau a ganlyn sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol: Cartrefi Cymunedol Cymru, Un Llais Cymru, Sefydliad Joseph Rowntree, Shelter, Tros Gynnal, y Gymdeithas Plant Byddar, Scope, United Federation ac Age Concern.

Mae Gwasanaeth y Pwyllgorau'n gweithio gyda Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i nodi pobl sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb ar gyfer ymchwiliadau pwyllgorau. Dyma rai enghreifftiau:

– Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Daeth plant sy'n derbyn gofal i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor; gofyn am sylwadau gan blant mewn digwyddiadau yn ystod yr haf – mae'r canfyddiadau'n dylanwadu ar gynllun gwaith y Pwyllgor.
– Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal: cynhaliodd Ymddiriedolaeth AIDS Cymru arolwg o brofiad ei aelodau o wahaniaethu mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r canfyddiadau wedi arwain at ymchwiliad diweddaraf y Pwyllgor.
– Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol: daeth defnyddwyr gwasanaeth i'r Senedd gyda chynrychiolwyr MIND a HAFOD i roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i iechyd meddwl.

Mae adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer camau gweithredu Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y dyfodol yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad yn ystyried y materion a ganlyn:

– technegau arloesol;
– nodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
– enghreifftiau o arfer da yn y Cynulliad;
– enghreifftiau ymarfer o sefydliadau allanol;
– rôl y gwahanol feysydd gwasanaeth;
– y broses o gasglu tystiolaeth;
– rôl aelodau a chadeiryddion y pwyllgorau;
– prosesau;
– arbenigedd technegol.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| H4 | Cofnodion Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau'r gwbl hygyrch i staff, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd trwy wefan y Cynulliad, ac yn cydymffurfio'n llwyr â safonau AA |

Mae nifer o brosiectau sy'n cael eu cynnal drwy'r Bwrdd Newid sy'n ymwneud â chynnwys y wefan a chyhoeddi. Bydd pob Rheolwr Prosiect yn sicrhau bod datganiad cydymffurfio ar gyfer pob prosiect.

Mae cofnodion y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau'n cael eu cyhoeddi ar amser yn ddieithriad. Cyhoeddir cofnodion y Cyfarfod Llawn mewn tri fformat - HTML, PDF a Word - i'w gwneud mor hygyrch â phosibl. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, sy'n ei gwneud yn hawdd i bawb eu defnyddio, yn enwedig pobl sydd â nam ar eu golwg. Ni chafwyd unrhyw geisiadau am fformatau amgen.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| H5 | Cyfarpar lladmeru'n hygyrch i'r holl staff, Aelodau'r Cynulliad, tystion pwyllgorau, ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd |

Mae'r amcan yn cael ei fodloni oherwydd bod y cyfarpar yn hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio, ac nid yw'n drwm. Mae'n cydweddu'n llawn â'r holl systemau sain yn y Senedd, Tŷ Hywel a Swyddfa Gogledd Cymru. Rydym wedi cael sylwadau cadarnhaol ar lafar gan gwsmeriaid ar sawl achlysur.

Mae'r cyfarpar lladmeru'n parhau i fod ar gael i bob defnyddiwr. Mae'r cyfarpar yn cynnwys: clustffonau i wella'r sain, sgriniau fideo yn yr oriel gyhoeddus ac arwyddo ar fideo. Mae bwriad i newid y sgriniau yn yr oriel gyhoeddus, a bydd y prosiect yn cynnwys gosod sgriniau addas ym mhob rhan o'r oriel.

### Cynllun gweithredu – y Tîm Gwasanaeth Cyfreithiol

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| I1 | Aelod o'r gwasanaeth yn arbenigo mewn materion cydraddoldeb ac yn gyfrifol nid yn unig am roi cyngor arbenigol ar faterion o'r fath ond hefyd am rannu gwybodaeth am faterion o'r fath ymhlith cyfreithwyr eraill |

Mae aelod o'r tîm Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael ei nodi fel rhywun sy'n gallu darparu cyngor arbenigol ar faterion cydraddoldeb. Mae gan Aelodau'r Cynulliad a staff fwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth ynglŷn â materion cydraddoldeb yn sgil y cyngor cyfreithiol a'r papurau briffio ar agweddau ar gyfraith cydraddoldeb a roddwyd iddynt. Yn ddiweddar, darparwyd papur ar ddarpariaethau penodol y Mesur Cydraddoldeb.

Mae cyfreithwyr wedi sefydlu cysylltiadau â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac wedi dosbarthu'r wybodaeth am faterion cydraddoldeb i'w cydweithwyr drwy'r sefydliad.

| | Canlyniad / amcan gofynnol |
|---|---|
| I2 | Pob cyfreithiwr yn cael hyfforddiant priodol yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb cyfreithiol cyn diwedd cyfnod y Cynllun |

Yn unol â gofynion hyfforddiant Cymdeithas y Gyfraith, mae pob cyfreithiwr yn gyfrifol am gadw ei gofnodion hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus i wella a chynyddu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth cydraddoldeb. Pan fydd y Mesur Cydraddoldeb yn mynd drwy Senedd y DU, bydd y Gwasanaeth Cyfreithiol yn cynnal hyfforddiant cydraddoldeb ar ddarpariaethau perthnasol y Mesur.

Mae hyfforddiant cydraddoldeb yn amcan parhaus penodol yn adroddiadau Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad yr holl gyfreithwyr yn y Gwasanaeth Cyfreithiol. Mae'r cyrsiau cydraddoldeb y mae staff wedi'u mynychu yn cynnwys: Cyfraith Gwahaniaethu Lexis Nexis; Cyfraith Tribiwnlys Cyflogaeth a Gwahaniaethu; cwrs ynglŷn â meysydd newydd gwahaniaethu; y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfraith Weinyddol - Gweithdy Cydraddoldeb; sesiwn rhannu gwybodaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

| | **Canlyniad / amcan gofynnol** |
|---|---|
| I3 | Cyfreithwyr yn paratoi adroddiadau rheolaidd i'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad ar statws cyfredol y Cynulliad a'r Comisiwn o fewn fframwaith deddfwriaeth cydraddoldeb ryngwladol, y Gymuned Ewropeaidd, y DU a Chymru |

Mae'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfreithiol pan fydd angen cyngor a chymorth cyfreithiol arno. Rhoddwyd papurau briffio cyfreithiol i'r Tîm Cydraddoldeb a Mynediad ar amrywiaeth o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y Mesur Seneddol ynghylch Cydraddoldeb, y Cynllun Cydraddoldeb, y Polisi Gwybodaeth Hygyrch, y Datganiad Cydraddoldeb, a'r protocol drafft ar gyfer tystion sy'n agored i niwed.

# Atodiad B: ystadegau'r gweithlu yn ôl hil ac ystadegau recriwtio yn ôl maes cydraddoldeb

### Tabl 1: Ethnigrwydd staff y Cynulliad*

| Ethnigrwydd staff y Cynulliad | Cyfanswm |
|---|---|
| Gwyn | 338 |
| Ethnigrwydd arall | 16 |
| Heb ei gofnodi | 21 |
| Cyfanswm | 375 |

### Tabl 2: Rhywedd staff y Cynulliad*

| Rhywedd | Cyfanswm |
|---|---|
| Dynion | 182 |
| Menywod | 193 |

### Tabl 3: Grwpiau oedran staff y Cynulliad*

| Oedran | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 56 | 124 | 71 | 76 | 48 |

* yn cynnwys staff ysbeidiol, staff sy'n gweithio am gyfnod penodol, staff sydd ar secondiad a staff parhaol.

### Ystadegau recriwtio yn ôl maes cydraddoldeb

Daw'r ystadegau a gyflwynir isod o'r ffurflenni monitro cydraddoldeb a gyflwynir gyda ffurflenni cais am swydd ar gyfer y 33 o gynlluniau recriwtio allanol a gynhaliwyd rhwng 1 Rhagfyr 2008 a 30 Rhagfyr 2009. Nid yw pob ymgeisydd yn cyflwyno ffurflen neu'n ei chwblhau. Mae'r data yn cynnwys ceisiadau mewnol ac allanol. Nodwch nad yw rhai o'r cynlluniau wedi dod i ben yn llawn eto, felly bydd nifer yr ymgeiswyr sy'n mynd drwy sifft, sy'n cael cynnig swydd neu sy'n ymgeiswyr wrth gefn yn cynyddu. Mae'r data yn rhoi cipolwg o'r wybodaeth fel y mae ar 30 Tachwedd 2009.

## Ystadegau hil / ethnigrwydd

| | Ceisiadau a gafwyd | Nifer yr ymgeiswyr aeth drwy'r sifft | Nifer yr ymgeiswyr y cynigwyd swydd iddynt | Nifer yr ymgeiswyr wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Gwyn | 925 | 148 | 29 | 27 |
| Ethnigrwydd arall | 65 | 5 | 1 | 1 |
| Dim ateb | 105 | | | |

## Ystadegau rhywedd / hunaniaeth o ran rhywedd

| Rhywedd | Ceisiadau a gafwyd | Nifer yr ymgeiswyr aeth drwy'r sifft | Nifer yr ymgeiswyr y cynigwyd swydd iddynt | Nifer yr ymgeiswyr wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Menyw | 488 | 84 | 16 | 14 |
| Dyn | 607 | 82 | 17 | 15 |
| Trawsrywiol | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Ystadegau anabledd

| | Ceisiadau a gafwyd | Nifer yr ymgeiswyr aeth drwy'r sifft | Nifer yr ymgeiswyr y cynigwyd swydd iddynt | Nifer yr ymgeiswyr wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Cais gan unigolion sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd | 39 | 7 | 1 | 1 |

## Ystadegau oedran

| Oedran | Ceisiadau a gafwyd | Nifer yr ymgeiswyr aeth drwy'r sifft | Nifer yr ymgeiswyr y cynigwyd swydd iddynt | Nifer yr ymgeiswyr wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 | 120 | 18 | 7 | 3 |
| 25-34 | 151 | 31 | 7 | 6 |
| 35-44 | 120 | 18 | 2 | 2 |
| 45-54 | 110 | 23 | 3 | 6 |
| Dros 55 | 36 | 4 | 0 | 1 |
| Ni chofnodwyd | 558 | | | |

## Ystadegau cyfeiriadedd rhywiol

| | Ceisiadau a gafwyd | Nifer yr ymgeiswyr aeth drwy'r sifft | Nifer yr ymgeiswyr y cynigwyd swydd iddynt | Nifer yr ymgeiswyr wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| Heterorywiol | 487 | 82 | 15 | 16 |
| Dynion hoyw | 10 | 3 | 2 | 1 |
| Menywod hoyw / lesbiaid | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Deurywiol | 9 | 1 | 0 | 0 |
| Dim cofnod | 587 | | | |

## Atodiad C: Adolygiad Cyflog Cyfartal 2009

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer pennu cyflogau 2010, mae'r Adran Adnoddau Dynol, gyda chymorth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, wedi cynnal Adolygiad Cyflog Cyfartal o gyflogau staff y Cynulliad ar 1 Ebrill 2009. Dyma'r prif ganlyniadau:

- mae'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn sylfaenol cymedrig a chanolrifol ar gyfer dynion 6.7 y cant a 26.2 y cant, yn y drefn honno, yn is na'r rheini ar gyfer menywod;
- mae cyfanswm y cyflogau cyfwerth ag amser llawn cymedrig a chanolrifol ar gyfer dynion 5.6 y cant a 12.4 y cant, yn y drefn honno, yn is na'r rheini ar gyfer menywod.

Pan gaiff cyflogau'r Clerc / Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr, yn ogystal â chyflogau'r cynghorwyr sy'n cael cyflog, eu hepgor o'r dadansoddiad, mae'r gwahaniaethau'n cynyddu ychydig:

- mae'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn sylfaenol cymedrig a chanolrifol ar gyfer dynion 9.2 y cant a 26.4 y cant, yn y drefn honno, yn is na'r rheini ar gyfer menywod;
- mae cyfanswm y cyflogau cyfwerth ag amser llawn cymedrig a chanolrifol ar gyfer dynion 8.1 y cant a 12.4 y cant, yn y drefn honno, yn is na'r rheini ar gyfer menywod.

Nid oes gwahaniaethau sylweddol o fewn graddau unigol a fyddai'n peri pryder. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau y dylid eu hegluro:

- mae'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn cymedrig a chyfanswm y cyflogau hyn ar gyfer dynion sy'n Staff Cymorth 12.7 y cant ac 8.1 y cant, yn y drefn honno, yn uwch na'r rheini ar gyfer menywod - caiff hyn ei egluro gan mwyaf gan nifer y cyflogeion Cymorth Tîm sy'n ddynion sy'n cael Lwfans Tarfu am weithio sifftiau diogelwch a'r nifer llawer uwch o ddynion sy'n Staff Cymorth sydd ar ben uchaf y raddfa;
- mae'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn cymedrig a chyfanswm y cyflogau hyn ar gyfer dynion sydd ym Mand Rheolaeth 2 (M-2) 10.1 y cant ac 8.6 y cant, yn drefn honno, yn is na'r rheini ar gyfer menywod - caiff hyn ei egluro yn bennaf gan niferoedd y cyflogeion sy'n fenywod sy'n cael Lwfans Recriwtio a Chadw y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a'r nifer llawer uwch o fenywod sydd yn y band hwn sydd ar ben uchaf y raddfa;
- mae'r cyflogau cyfwerth ag amser llawn cymedrig a chyfanswm y cyflogau hyn ar gyfer dynion sydd ym Mand Gweithredol 2 (E-2) 9.0 y cant a 13.5 y cant, yn y drefn honno, yn uwch na'r rheini ar gyfer menywod - caiff hyn ei egluro i raddau helaeth gan y nifer llawer uwch o ddynion yn y band hwn sydd ar ben uchaf y raddfa.